# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-13-08 Papur 3 : 02 Hydref 2008

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhestru'r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd am ddeisebau a ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor. Derbyniwyd llawer o'r wybodaeth ddiweddaraf fel gohebiaeth. Pan yn berthnasol, mae copïau o'r ohebiaeth wedi eu cynnwys fel atodiad PET(3) 13-08 Papur 3A i'r papur hwn.

### (i) P-03-059 Sefydliad Aren Cymru a P-03-076 Cymdeithas Cleifion Arennau Cymru

### Geiriad y Deisebau

P-03-059:

'Gan hynny, mae'r deisebwr/deisebwyr yn gwneud cais/yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i weithio â Sefydliad Aren Cymru a deiliaid diddordeb eraill i osod a chyflawni nod o ddyblu rhoddwyr arennau yng Nghymru erbyn diwedd y Cynulliad Cenedlaethol hwn yn 2011.

Rydym yn gofyn i'r Cynulliad roi arian cyfatebol ar gyfer ymgyrch drwy ateb ein cyfraniad bunt am bunt.'

P-03-076:

'Mae'r deisebydd/wyr uchod yn gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ofyn am bwerau deddfu o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru i newid y system bresennol sy'n gofyn i bobl ddewis rhoi organ, a chreu system caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y deisebau hyn gan Sefydliad Aren Cymru a Chymdeithas Cleifion Arennau Cymru.

Casglodd y deisebau, at ei gilydd, 25 llofnod.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddeiseb P-03-059 am y tro cyntaf ar 20 Medi 2007. Wedi hynny, ystyriodd y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r ddeiseb ar 04 Tachwedd 2007 a 26 Tachwedd 2007. Penderfynodd y Pwyllgor ofyn i'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â'r ddeiseb hon.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddeiseb P-03-076 am y tro cyntaf ar 17 Ionawr 2008. Cytunodd y Pwyllgor i aros am ganlyniad ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol (HWLG), "Ymchwiliad i Ganiatâd Tybiedig i Roi Organau", cyn ail ystyried y ddeiseb hon—ymchwiliad a gychwynnwyd o ganlyniad i ddeiseb P-03-059.

Mae'r Pwyllgor HWLG wedi adrodd yn ôl erbyn hyn, ac atodir llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor HWLG fel eitem 1 o PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i P-03-059:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-059.htm

Linc i P-03-076:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-76.htm

Linc i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar ganiatâd tybiedig i roi organau: h

ttp://www.cynulliadcymru.org/cr-ld7192-e.pdf

### (ii) P-03-067 Tir y 'Miners' Welfare'

### Geiriad y Ddeiseb

'Rydym ni, sydd wedi llofnodi'r ddeiseb hon ac sy'n byw ym mhentref Nelson, yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw ddatblygiad ar y safle uchod gan yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau. Cafodd Awdurdod Datblygu Cymru'r safle 7.5 erw gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a oedd wedi'i brynu ar ran yr Awdurdod oddi wrth yr ymddiriedolwyr, heb yn wybod i'r cyn-lowyr lleol, am bris chwerthinllyd o isel. Nid cyn-lowyr oedd yr ymddiriedolwyr hyn ond cyn-gynghorwyr dosbarth lleol. Mae'r tir hwn bellach yn eiddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru a gofynnwn iddi ddychwelyd tir y 'Welfare', sydd bellach yn ardal wledig agored sy'n llawn harddwch naturiol, coed

hynafol, coetir, gwrychoedd a bywyd gwyllt amrywiol, i eiddo trigolion y pentref i'w ddefnyddio gennym ni a chenedlaethau i ddod. Dyna oedd bwriad y glowyr lleol pan fu iddynt brynu'r tir hwn a thalu amdano. Rydym eisoes wedi cyflwyno deiseb i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n galw arno i hepgor y tir o'i Gynllun Datblygu Lleol.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mrs P. Lapsa.

Yr oedd 1,692 o lofnodion ar y ddeiseb.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 20 Medi 2007. Wedi hynny, ystyriodd y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r ddeiseb ar 21 Chwefror 2008, 06 Mawrth 2008 a 10 Ebrill 2008.

Yn ei gyfarfod ar 10 Ebrill 2008, cydnabu'r Pwyllgor fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygu'r safle hwn. Penderfynodd y Pwyllgor ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn a ellid dychwelyd unrhyw ran o'r safle i'w ddefnyddio gan y gymuned leol. Atodir copi o ymateb y Dirprwy Brif Weinidog fel eitem 2 o PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-67.htm

### (iii) P-03-068 Gwastadeddau'r Rhyl

### Geiriad y Ddeiseb

'Mae'r rheini ohonom sydd wedi llofnodi isod, sy'n cynrychioli cymuned busnes Twristiaeth a Phreswylwyr Llandudno, Llandrillo-yn-Rhos a Bae Colwyn, yn gofyn bod y Cynulliad Cenedlaethol, fel mater o gryn brys, yn ceisio ffyrdd o atal gweithrediadau Npower yn Constable Point a'r cyffiniau ger Rhos-Point, lle y maent yn bwriadu lleoli Fferm Wynt ar y Môr (4-5 milltir o'r lan) a chynnal ymchwiliad llawn i weithredoedd Npower ynghylch eu rhan ym mhrosiect Fferm Wynt 'Gwastadeddau'r Rhyl'.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mrs Janet Howarth.

Yr oedd 10 llofnod ar y ddeiseb.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 20 Medi 2007. Wedi hynny, ystyriodd y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r ddeiseb ar 21 Chwefror 2008, 06 Mawrth 2008, 11 Mehefin 2008 a 09 Gorffennaf 2008. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y deisebwyr yn ei gyfarfod ar 06 Mawrth 2008.

Ar 09 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y deisebwyr unwaith eto, i ofyn eu barn am y dystiolaeth yr oedd y Pwyllgor wedi'i chasglu wrth ystyried y ddeiseb hon. Derbyniwyd llythyr gan y deisebwyr ac fe'i atodir fel eitem 3 o PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-68.htm

### (iv) P-03-079 Y Comisiynydd Plant

### Geiriad y Ddeiseb

'At Gynulliad Cenedlaethol Cymru

O dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, Deddf Comisiynydd Plant 2001, Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 ac adran 77 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, rydym ni sydd wedi llofnodi isod, sef dinasyddion Cymru sy'n parchu'r gyfraith, yn gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ystyried y ddeiseb hon fel mater o flaenoriaeth. Mae'r ddeiseb yn cyfeirio at y deddfau amrywiol sy'n cyfyngu ar swyddogaeth y Comisiynydd Plant wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau cyfreithiol i ddiogelu plant sy'n cael eu cam-drin ar hyn o bryd gan asiantaethau'r Wladwriaeth gan gynnwys arbenigwyr sy'n cael eu cynorthwyo a'u hannog gan y llysoedd. Gofynnwn i'r ddeddf gael ei diwygio er mwyn i Gomisiynydd Plant Cymru fedru ymchwilio i feysydd lle cafodd yr egwyddor o roi'r brif ystyriaeth i fuddiannau a lles y plentyn ei gamddefnyddio'n eang, gan gynnwys;

Plant sy'n cael eu cymryd o'u cartrefi ar sail honiadau ffug nad ymchwiliwyd iddynt.

Arbenigwyr sy'n cael defnyddio damcaniaethau arbrofol sydd heb eu profi, gyda chydsyniad y Llys.

Gweithwyr cymdeithasol sy'n mynd ati'n fwriadol i gadw defnyddiau neu ffeithiau'n ôl, i'w newid neu i gyflwyno defnyddiau neu ffeithiau anghywir er mwyn sicrhau canlyniadau y maent wedi penderfynu arnynt ymlaen llaw.

Llysoedd, newyddiadurwyr y llysoedd ac arbenigwyr annibynnol honedig sy'n cydgynllwynio i sicrhau canlyniadau nad ydynt er lles gorau'r plentyn.

Rhagfarn yn erbyn addysg Gymraeg

Prinder dulliau annibynnol o wybod a yw plant yn cael eu cam-drin tra maent yn derbyn gofal gan gyrff Gwladol ac a yw'r wybodaeth hon yn cael ei hanwybyddu os caiff ei dwyn i sylw'r Barnwyr.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mr. G. Davies. Yr oedd 10 llofnod ar y ddeiseb.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 21 Chwefror 2008.

Ystyriodd yr eitem yn breifat  a phenderfynodd ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Comisiynydd Plant i gasglu gwybodaeth bellach.

Derbyniwyd ymatebion gan y Gweinidog a'r Comisiynydd Plant ac fe'u hatodir fel eitem 4 i PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-x.htm

### (v) P-03-081 Rheoliadau Benthyciadau i Fyfyrwyr

### Geiriad y Ddeiseb

'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ychwanegu at y galwedigaethau sydd wedi'u heithrio, a restrir uchod, er mwyn cynnwys unrhyw gwrs gradd i israddedigion sy'n rhagofyniad cyfreithiol, gorfodol i gymhwyso neu gofrestru mewn galwedigaeth benodol. Dyma rai enghreifftiau o gyrsiau o'r fath:

BSc/Op i gofrestru fel Optometrydd

MPharmacy i gofrestru fel Fferyllydd'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mr. Deri Burgess. Yr oedd 16 llofnod arni.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 06 Rhagfyr 2007. Wedi hynny, ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r ddeiseb ar 10 Ebrill 2008 a 22 Mai 2008.

Ar 22 Mai, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i ofyn am wybodaeth ar y cyrsiau penodedig yn rheoliadau 2009. Mae'r Gweinidog wedi ymateb yn awr, ac atodir ei hymateb fel eitem 5 i PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-081.htm

### (vi) P-03-082 Ysgol Hen Felin

### Geiriad y Ddeiseb

'Yr ydym ni'r rhai sydd wedi arwyddo isod, yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu mwy o gyllid ar gyfer grwpiau fel VIVA i'n galluogi i wneud mwy o weithgareddau min nos.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan ddisgyblion Ysgol Hen Felin. Yr oedd 21 llofnod ar y ddeiseb.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 21 Chwefror 2008 a clywodd dystiolaeth gan y deisebwyr ar 08 Mai 2008. Ystyriodd y Pwyllgor safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 25 Mehefin 2008.

Wedi iddo ystyried ymateb Llywodraeth y Cynulliad, penderfynodd y Pwyllgor ysgrifennu unwaith eto at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r Gweinidog wedi ymateb, ac atodir ei hymateb fel eitem 6 o PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-082.htm

**(vii) Gwasanaethau bws hygyrch yn Sir Benfro (Ysgol Portfield)**

**Geiriad y Ddeiseb**

'Dylai Sir Benfro fod â bysiau mwy hygyrch ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn'

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb gan ddisgyblion Ysgol Portfield. Yr oedd 21 llofnod ar y ddeiseb.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 06 March 2008. Ymwelodd aelodau o'r Pwyllgor ag Ysgol Portfield, i gasglu tystiolaeth gan y disgyblion, ar 04 Gorffennaf 2008. Mae'r Clerc wedi paratoi adroddiad ar yr ymweliad, sef atodiad PET(3) 12-08 Papur 3B.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-90.htm

**(viii) P-03-103 [WEDI'I CHAU] Addysg Gyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy**

**Geiriad y Ddeiseb**

'Rydym ni, etholwyr Sir Fynwy, Casnewydd a Chaerffili yn deisebu'r Cynulliad a'r Cynghorau i sefydlu Ysgol Gyfyn Eilradd Gymraeg newydd i blant y siroedd.'

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Emma Hill. Yr oedd 157 llofnod ar y ddeiseb.

Bu i'r Pwyllgor gau ei ystyriaeth o'r ddeiseb hon ar 09 Gorffennaf 2008. Wrth wneud hynny, cytunodd y Pwyllgor hefyd i ofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau sicrhau bod y deisebwyr yn cael eu hychwanegu at restrau ymgynghori Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu i gadarnhau ei bod wedi gwneud hynny ac atodir ei hymateb fel eitem 7 o PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-103.htm

**(ix) P-03-107 Papur Dyddiol Cymraeg**

**Geiriad y Ddeiseb**

**'Galwn ar Lywodraeth Cymru i wireddu ar frys yr addewid clir i sefydlu papur dyddiol Cymraeg a gyhoeddwyd yn Cymru'n Un:**

"Byddwn yn cynyddu'r cyllid a'r gefnogaeth a roddir i gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg, gan gynnwys sefydlu papur newydd dyddiol Cymraeg." Galwn am gyhoeddiad newydd gan y Llywodraeth bod swm digonol yn cael ei neilltuo'n benodol ar gyfer sefydlu papur cenedlaethol annibynnol yn Gymraeg, yn unol â'r ymchwil sydd wedi ei wneud gan sefydliadau profiadol yn y maes.'

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb gan Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Yr oedd mwy na 1,000 o lofnodion ar y ddeiseb.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 10 Ebrill 2008. Ystyriodd y wybodaeth ddiweddaraf am destun y ddeiseb ar 11 Mehefin 2008 a gwrandawodd ar dystiolaeth gan y deisebwyr yn ei gyfarfod ar 23 Gorffennaf 2008.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu i'r Gweinidog dros Dreftadaeth newydd er mwyn canfod ei farn ynglŷn â'r mater hwn. Ymatebodd y Gweinidog dros Dreftadaeth ac atodir copi o'i ymateb fel eitem 8 o PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-107.htm

### (x) P-03-120 RANT

### Geiriad y Ddeiseb

**'Yr ydym yn gwneud cais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ailddechrau monitro Hapsite mewn preswylfeydd lleol ac ar y safle tirlenwi ei hun. [...]**

Yr ydym hefyd yn gwneud cais i Ganolfan Iechyd Cymru gynnal astudiaeth epidemiolegol arall yn ardal Nantygwyddon.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan RANT (Residents Against Natygwyddon Tip). Yr oedd 11 llofnod ar y ddeiseb.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 08 Mai 2008 a derbyniodd y wybodaeth ddiweddaraf ar 25 Mehefin 2008.

Gofynnodd y deisebydd am y cyfle i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor. Cytunodd y Pwyllgor i hynny ac y mae'r deisebydd wedi darparu gwybodaeth ychwanegol sydd wedi'i hatodi fel eitem 9 o PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-120.htm

### (xi) P-03-121 Cylchfan Treforys

### Geiriad y Ddeiseb

'Galwn ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau nad yw rhaglenni traffig a allai achub bywydau ac atal niwed yn cael eu dal yn ôl gan segurdod lleol - hyd yn oed ar ôl i gyllideb y Cyngor gael ei ddyrannu - ac i ddarparu cyllid ar gyfer gwelliannau ger y gyffordd hon.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rhyddfrydwyr Democrataidd Treforys. Mae 27 llofnod ar y ddeiseb.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 25 Mehefin 2008. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn iddo egluro polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran diogelwch ar ffyrdd lleol. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi ymateb ac atodir copi o'i ymateb fel eitem 10 o PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/eform-sign-petition/p-03-121.htm

### (xii) P-03-123 Ffyrdd sydd heb eu Mabwysiadu

### Geiriad y Ddeiseb

'Yr ydym ni sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w gwneud yn haws i awdurdodau unedol ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ffyrdd heb eu mabwysiadu gan leihau'r byrdwn ar dalwynebwyr.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan y Cynghorydd Chris Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot). Yr oedd 113 llofnod ar y ddeiseb hon.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 08 Mai 2008. Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb ar 25 Mehefin 2008. Ar ôl y cyfarfod hwnnw, penderfynodd y Pwyllgor ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i ganfod p'un a oedd unrhyw rwystrau deddfwriaethol neu weinyddol i fabwysiadu ffyrdd. Mae CLlLC wedi ymateb ac atodir copi o'r ymateb fel eitem 11 o PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-123.htm

### (xiii) P-03-124 Cysgliad

#### Geiriad y Ddeiseb

'Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod fersiwn Windows o'r geiriadur/thesawrws Cysgliad ar gael i'w lwytho am ddim.'

#### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Alun Evans. Yr oedd 11 llofnod ar y ddeiseb.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 11 Mehefin 2008. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ganolfan Bedwyr Prifysgol Bangor i gasglu gwybodaeth bellach. Atodir copi o ymateb Prifysgol Bangor fel eitem 12 o PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/eform-sign-petition/p-03-124.htm

### (xiv) P-03-126 Mesurau Seicolegol i Leddfu Traffig

#### Geiriad y Ddeiseb

**'Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ariannu cynllun peilot yn Nynfant, Abertawe i archwilio effeithiolrwydd cynllun lleddfu traffig seicolegol yn y pentref.'**

#### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Nick Tregoning a John Newbury. Yr oedd 13 llofnod ar y ddeiseb.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 11 Mehefin 2008. Penderfynodd yn ystod y cyfarfod hwnnw i ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru am ei safbwynt polisi. Derbyniwyd ymateb ac fe'i atodir fel rhan 13 o PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.assemblywales.org/gethome/e-petitions/eform-sign-petition/p-03-126.htm

### (xv) P-03-127 Cartref Castle Care

#### Geiriad y Ddeiseb

'Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i archwilio'r amgylchiadau ynghylch lleoli cartref CastleCare yn 97-98 Dulais Road, Blaendulais,Castell-nedd, SA10 9ES.'

#### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mr. Gary James.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 11 Mehefin 2008. Penderfynodd yn ystod y cyfarfod hwnnw y byddai'n dod i benderfyniad a oedd y gweithdrefnau cynllunio lleol wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â'r cartref gofal arfaethedig hwn. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi ymateb, ac atodir copi o'r ymateb hwnnw fel eitem 14 i PET(3) 13-08.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/eform-sign-petition/p-03-127.htm

### (xvi) P-03-130 Band Eang yn rhanbarthau Llansanffraid Gwynllŵg a Lighthouse Park Dinas Casnewydd

#### Geiriad y ddeiseb

'Byddem ni sydd wedi llofnodi isod yn gofyn am rywfaint o gyfarwyddyd a chymorth gan Gynulliad Cymru ar gyfer darparu Band eang yn ein hardal uchod.'

#### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mr. Tom Suller. Derbyniodd 139 llofnod.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 08 Mai 2008 ac ystyriodd y wybodaeth ddiweddaraf ar 25 Mehefin 2008. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, cytunodd y Pwyllgor i gysylltu â'r deisebwyr i roi'r manylion iddynt ynglŷn â sut y gallant gofrestru eu man gwan.

Mae'r deisebwr wedi cysylltu ag ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor ers hynny i ddweud bod hynny wedi'i wneud eisoes.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-130.htm

### (xvii) P-03-134 System Anrhydeddau i Gymru

### Geiriad y Ddeiseb

'Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno system anrhydeddau i Gymru ac y dylai system o'r fath anrhydeddu'r awdur, Jan Morris.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Richard Owen a derbyniodd 38 llofnod.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 25 Mehefin 2008. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu i'r Prif Weinidog (PW) i ofyn a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ystyried cyflwyno system anrhydeddau i Gymru. Mae'r PW wedi ymateb ac atodir copi o'i ymateb fel eitem 15 i PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/eform-sign-petition/p-03-134.htm

### (xviii) P-03-136 Parcio yn Y Mynydd Bychan a Birchgrove

### Geiriad y Ddeiseb

Gofynnwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru: 1. Gynghori Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro i ddarparu digon o le parcio ar y safle ar gyfer staff ac ymwelwyr trwy gael ardaloedd addas ar gyfer parcio i'r ysbyty ar y safle ac ar dir fel yr ardal ddiffaith i'r gogledd o'r rhandiroedd gyferbyn ag Ysbyty'r Mynydd Bychan ar yr ochr arall i Eastern Avenue, datganoli rhai o'r gwasanaethau sydd eisoes ar safle'r Mynydd Bychan a pheidio â gwerthu tir ysbytai yng Nghaerdydd a'r ardal gyfagos ar gyfer tai. 2. Argymell bod Cyngor Sir Caerdydd yn gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu pellach ar safle Ysbyty'r Mynydd Bychan oni bai bod uned yn cael ei symud o'r safle, a fydd â'r un effaith ar draffig peidio â chefnogi datblygiadau amlfeddiannaeth yn yr ardal a chyflwyno system parcio am gyfnod cyfyngedig yn y strydoedd sydd o fewn pellter cerdded i Ysbyty'r Mynydd Bychan 3. Ystyried o fewn y Cynulliad, cyflwyno system a fyddai'n caniatáu i grwpiau lleol apelio i'r Cynulliad pan fydd y cyngor yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad y mae'r trigolion yn ystyried a fydd yn gwaethygu'r broblem barcio yn yr ardal.

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mr. Ron Page ac y mae mwy na 500 o lofnodion iddo.

Ni all y Pwyllgor ymyrryd â threfniadau penderfynu lleol, ac y mae felly wedi canolbwyntio ei ystyriaeth ar y rhan y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i chwarae.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 22 Mai 2008 ac ystyriodd lythyr gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 09 Gorffennaf 2008. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r Gweinidog wedi ymateb, ac atodir copi o'i hymateb fel eitem 16 i PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb: http://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-136.htm

### (xix) P-03-141 a 149 O blaid ac yn erbyn Maes Awyr Llanbedr

### P-03-141 O blaid Maes Awyr Llanbedr - Geiriad y ddeiseb

'Maes Awyr Llanbedr - Oes, Oes, Oes!

Rydym ni sydd wedi arwyddo isod o blaid datblygu maes Awyr Llanbedyr er mwyn dod â gwaith i'r ardal, hybu twristiaeth a datblygu'r economi leol.'

Cafodd y ddeiseb yma ei gyflwyni gan Gwynli Jones.

Casglodd y ddeiseb 1,240 llofnodion.

### P-03-149 Yn erbyn Maes Awyr Llanbedr - Geiriad y ddeiseb

'Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gychwyn archwiliad cyhoeddus llawn o'r cynnig i greu canolfan hedfan masnachol ym Mharc Cenedlaethol Eryri, sy'n mynd yn groes i'r dibenion statudol y cafodd Parciau Cenedlaethol eu creu ar eu cyfer.

Cafodd y ddeiseb yma ei gyflwyni fel e-deiseb gan Cymdeithas Eryri - Snowdonia Society.

Casglodd y ddeiseb 156 llofnodion.

### Cefndir

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeisebau hon am y tro cyntaf ar 23 Gorffennaf 2008 a phenderfynodd ysgrifennu at y Gweinidog dros Economi a Thrafnidiaeth.

Mae'r Gweinidog dros Economi a Thrafnidiaeth wedi ymateb, ac atodir copi o'i ymateb fel eitem 17 i PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i P-03-141 O blaid Maes Awyr Llanbedr:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-141.htm

Linc i P-03-149 Yn erbyn Maes Awyr Llanbedr:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/p-03-149

### (xx) P-03-142 Deiseb i dynnu cerflun Margaret Thatcher o'r Senedd

### Geiriad y Ddeiseb

'Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i dynnu cerflun Margaret Thatcher o adeilad y Cynulliad Cenedlaethol (Y Senedd).'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mr. Aubrey Jenkins a chasglodd 89 llofnod.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 09 Gorffennaf 2008 a phenderfynodd ysgrifennu at Gomisiwn y Cynulliad er mwyn cadarnhau'r gweithdrefnau ar gyfer arddangos gwaith celf yn y Senedd. Mae'r Llywydd wedi ymateb, fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad, ac atodir copi o'i ymateb fel eitem 18 i PET(3) 13-08 Papur 3A.

Nid yw'r cerflun (neu waith celf) yn cael ei arddangos yn y Senedd mwyach, gan mai arddangosfa dros dro yn unig ydoedd.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/eform-sign-petition/p-03-142.htm

### (xxi) P-03-144 Cŵn Tywys y Deillion

### Geiriad y Ddeiseb

'Yr ydym ni, y cynrychiolwyr a lofnodir isod, yn deisebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i osod cyfrifoldeb penodol ar awdurdodau lleol i fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd, a chydymffurfio â hwy drwy beidio â chreu canol trefi, strydoedd mawr na strydoedd preswyl gydag arwynebau a rennir sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl ddall a phobl sy'n gweld yn rhannol a phobl anabl eraill, gan eu hallgáu i bob pwrpas o amgylchedd y stryd.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Gŵn Tywys y Deillion. Fe'i cefnogwyd gan ddeg sefydliad arall.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 25 Mehefin 2008 a chytunodd i ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru am ei safbwynt polisi ar arwynebau a rennir. Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi ymateb, ac atodir copi o'i hymateb fel eitem 19 i PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-144.htm

### (xxii) P-03-145 Tanwydd a Chludo Nwyddau ar Ffyrdd yng Nghymru

### Geiriad y Ddeiseb

'Yr ydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gydnabod effaith ariannol llethol codiadau mewn prisiau tanwydd ar fusnesau Cludo Nwyddau yng Nghymru ac yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddechrau adolygiad / ymchwiliad i gystadleurwydd a chynaliadwyedd y diwydiant Cludo Nwyddau ar Ffyrdd yng Nghymru yn y dyfodol. Dylid wedyn defnyddio canlyniad unrhyw ymchwiliad i lunio mesurau cefnogol ar gyfer y Diwydiant Cludo Nwyddau ar Ffyrdd yma yng Nghymru a lobïo Llywodraeth Genedlaethol y DU pan fydd unrhyw fesurau y tu hwnt i gylch gwaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Martin Palmer ar ran 35 cwmni cludiant o Gymru.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 25 Mehefin 2008 a chytunodd i:

Ddwyn sylw'r Pwyllgor Menter a Dysgu at y ddeiseb hon

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn am agwedd Llywodraeth y Cynulliad at bryderon y deisebwyr

Mae'r Pwyllgor Menter a Dysgu yn cynnal ymchwiliad byr ar hyn o bryd i faterion yn ymwneud â'r ddeiseb hon.

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi ymateb ac atodir copi o'i ymateb fel eitem 20 i PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-145.htm

### (xxiii) P-03-157 Coleg Ffederal Cymraeg

### Geiriad y Ddeiseb

'Galwn ar Lywodraeth y Cynulliad i gadw at addewid cytundeb 'Cymru'n Un' o sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg. Rhaid i Goleg Ffederal gynnwys yr elfennau canlynol:

Statws statudol a chyfansoddiad annibynnol

Siarter a chylch gorchwyl annibynnol gan gynnwys cyfrifoldeb dros holl addysg uwch cyfrwng Cymraeg Cymru

Llif arian annibynnol — o leiaf £20 miliwn yn y lle cyntaf

Cofrestr myfyrwyr annibynnol, a fydd yn sicrhau bod modd i fyfyrwyr gofrestru gyda'r Coleg Ffederal a chyda'u coleg daearyddol, gan arwain at ymdeimlad o berthyn a pherchnogaeth ohono.

Byddai unrhyw beth llai na chyfuniad cyflawn o'r uchod yn torri'r addewid. Galwn ar y Llywodraeth i ail-ystyried eu cynlluniau os nad yw'r uchod yn rhan ohonynt.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg a derbyniodd 977 llofnod.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 09 Gorffennaf 2008. Cytunodd i ofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am safbwynt polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Gweinidog wedi ymateb ac atodir copi o'i hymateb fel eitem 21 i PET(3) 13-08 Papur 3A.

Linc i'r ddeiseb:

h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-157.htm

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Medi 2008**